



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan
LL330AB 01248681697 Town Clerk: jayne@llanfairfechan.net

**COFNODION CYFARFOD LLAWN Y CYNGOR TREF
NOS FERCHER MEHEFIN 30AIN 2021**

Presennol: Cadeirydd: Maer Penny Andow; Cyng Laura Fielding; Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Rob Jewell; Dirprwy Faer Cyng Christopher Jones; Cyng Nia Jones; Cyng Iolo Kars Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Delohne Merrell: Cyng Christine Roberts.

Croeso gan Gadeirydd y cyfarfod

Ymddiheuriadau am absenoldeb – Cyng Carol Gell; Cyng Claire Hughes; Cyng Gareth Wyn Jones

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

Datganiadau o ddiddordeb – yn unol â Chôd Ymddygiad Llywodraeth Leol – dim

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd

Doedd dim aelodau'r cyhoedd yn bresennol

Presennol: Robin Millar Aelod Seneddol Aberconwy

Cyflwynodd Mr Millar ei hun ac egluro ei rôl fel AS Aberconwy. Fel un gafodd ei eni ym Mangor, ac sydd bellach yn byw yn Neganwy, mae Mr Millar yn adnabod yr etholaeth yn dda. Dywedodd ei fod wedi dod i adnabod Llanfairfechan fwy yn ddiweddar yn ystod y pandemig a'i fod yn cydnabod ei bod yn lle syfrdanol i'w ymweld a byw ynddo.

Pwnc presennol ydy'r Bil Deg Munud sy'n gofyn am ddeddfwriaeth wedi'i diweddarau ynghylch cŵn peryglus a'r bygythiad i dda byw. Bydd yn cael ei gyflwyno yn fuan ac yn helpu tîrfeddianwyr reoli ymddygiad cŵn ar eu tir. Gan nad oedd llawer o amser, bu trafodaeth yn seiliedig ar y cwestiynau gafodd eu codi. Hefyd bu sôn am £20 miliwn sy'n dod i Gyngor Conwy sy'n rhan o'r arian lefelu, y gall Llanfairfechan elwa ohono. Arian o bosibl er mwyn uwchraddio'r maes parcio a'r amddiffynfeydd llyfoggydd. Mae hefyd cyfle i roi cynnig am brosiectau eraill i wella'r dref.

Maes Parcio'r Promenâd

Bu i'r Cynghorydd Sir nodi fod hwn wedi bod yn broblem ers degawdau gyda phroblemau sylweddol, nid yn unig ynghylch ail-wynebu, ond hefyd draeniau, nifer o lefydd parcio a mynediad i'r maes parcio. Yn ystod cynllun y Cyngor Sir i uwchraddio meysydd parcio Cyngor Conwy a'u newid yn rhai talu ac arddangos, mae ein maes parcio wedi'i adael tan yn olaf gan ei fod wedi'i gydnabod fel tasg enfawr. Mae pryderon nad ydy'r cynllun drafft presennol ar gyfer 98 car yn darparu digon o lefydd parcio. Ar ôl cyfrif ceir yn answyddogol un dydd Sadwrn roedd 125 o geir yn parcio yn yr ardal gan gynnwys rhai yn ardal y ffordd goch a ffyrdd ochr a chefn y promenâd.

Bu i Gynghorydd godi pryderon am y gwaith dros dro presennol ar y tyllau yn y ffyrdd - nid ydym wedi clywed mwy er ein bod wedi nodi bod y cerrig yn beryglus.

Dywedodd y Cynghorydd Sir bod hwn yn lle unigryw gan ei fod mor agos i'r môr. Tydy'r trigolion ddim eisiau peiriannau talu ac arddangos ac mae pryderon mawr am lefydd parcio i'r trigolion.

Ymateb: Bydd hyn yn cael effaith ar lefydd parcio i drigolion - beth ydy barn y trigolion?

Ymatebodd y Cynghorydd Sir bod pryder mawr am lefydd parcio i drigolion a sut bydd hyn yn gweithio. Mae llawer o'r tai ar hyd y prom yn rhai lle mae sawl person yn byw ynddyn nhw ac felly mae mwy nac un car ac mae pryderon am unrhyw gyfyngiadau all gael eu rhoi mewn lle.

Ymateb: AS i godi'r pryderon ynghylch nifer y ceir a barn y trigolion. Does dim amheuaeth fod hwn yn lle syfrdanol ac y bydd unrhyw waith uwchraddio ar y maes parcio yn denu mwy o ymwelwyr fydd efallai yn gwaethygu'r broblem.

Diffyg eglurder ar y gwaith gaiff ei wneud gan yr awdurdod lleol

Bu i Gynghorydd nodi bod Llanfairfechan yn wynebu llawer o ddatblygiadau newydd - CDLI, gwaith ar gyffordd yr A55, maes parcio'r Prom, uno ysgolion a llawer o waith adnewyddu i wella'r cyfleusterau. Mae'n ymddangos bod trafodaethau hirfaith wedi bod am hyn gyda'r Cyngor Sir ar y dechrau, ond mae'r Cyngor Tref wedi aros am lawer gormod o amser iddo symud at y pwynt lle daw gwybodaeth glir i mewn neu fod y gwaith yn dechrau. O ganlyniad, mae'r Cyngor Tref yn cael y bai am beidio â gwneud unrhyw beth pan mae popeth allan o'n dwylo.

Ymateb: Bu i Mr Millar wneud nodyn o hyn a dywedodd y byddai'n codi'r pwnc gyda'r awdurdod lleol.

Cylchfannau'r A55

Bu i Gynghorydd ofyn ydy pethau wedi newid yn dilyn cynllun y Llywodraeth Cymru gyda datblygiadau ffyrdd newydd?

Mae llawer o bobl wedi gwrthwynebu, ond does neb wedi derbyn unrhyw wybodaeth yn ôl eto.

Ymateb: Mae'r prosiect hwn yn anodd dadlau yn ei erbyn. Mae'r A55 yn ffordd strategol Ewropeaidd a dyma'r unig ddwy gylchfan ar hyd y ffordd. Bydd ymholiad cyhoeddus yn fuan felly bydd y prosesau yn edrych ar yr holl elfennau.

Bu i'r Cynghorydd Sir nodi bod pryderon amgylcheddol enfawr ynghylch y prosiect yn wyneb newid hinsawdd. Yn ychwanegol, mae wedi'i nodi bod cludiant i lawr o 35% gyda chlodwyr yn symud i ffwrdd o ddefnyddio porthladd Caergybi.

Dywedodd cynghorydd bod yr AS yn rhan o'r Uned Adnoddau Newydd yn San Steffan. A ddylai'r penderfyniad am y ffordd gael ei wneud ar y cyd rhwng San Steffan a Llywodraeth Cymru gan fod yr A55 yn rhan o rwydwaith cenedlaethol/rhyngwladol? Mae'n ymddangos bod angen llawer iawn mwy o gydweithio rhwng Caerdydd a San Steffan.

Ymateb: Cytuno'n llwyr fod angen mwy o gydweithio. Nid yw'n broses hawdd, ac mae bwrdd ar y cyd wedi'i sefydlu i sicrhau caiff yr amcanion eu cyflawni. Er enghraifft, nid yw'n broses hawdd trosglwyddo asedau fel cludiant cyhoeddus ayb.

Y Rheilffordd a Chyfraddau Busnesau

Bu i'r Cynghorydd Sir nodi bod y rheilffordd i Orllewin Llanfairfechan wedi'i hadeiladu ar dir gwlyb ac mae pryderon y gall llifogydd fod yn fygythiad i'r rheilffordd yn y pendraw. Mae hyn wedi'i nodi yn y Sir.

Yn ychwanegol, bu sôn bod angen ailedrych ar y cyfraddau i fusnesau bach yn ein pentref - mae'r broses yn annheg iawn ac yn elwa'r cwmnïau mwy pan ddylai busnesau bach gael eu cefnogi.

Ymateb: Mae'r rheilffordd yn fater i beirianwyr sifil a bydd angen ei hystyried mewn unrhyw waith sy'n atal llifogydd. Mae Covid-19 wedi cyflymu tuedd negyddol tuag at y stryd fawr ac yn sicr mae angen newid mewn diwydiant o bosibl tuag at amgylchedd sy'n canolbwyntio fwy ar ffordd o fyw a hamddena yn hytrach na dim ond siopa.

Cyswllt gyda'r awdurdod lleol

Bu i'r Cynghorydd Sir ofyn faint o gyswllt sydd gan yr AS gyda'r Cyngor Sir?

Ymateb: Mae sgwrs dros y ffôn gydag Arweinydd Cyngor Conwy bob dydd Llun. Dylid nodi bod Mr Millar yn gweld pwysigrwydd mawr mewn partneriaeth ac wedi defnyddio'r gyfatebiaeth o oren - mae ganddo ddiddordeb yn y sudd, nid y darnau o unrhyw waith gaiff ei gynllunio. Dywedodd nad ydy ei ffordd o fynd ati gyda'i waith gyda'r Cyngor Sir yn gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol - mae'n siarad gydag arweinydd yr awdurdod ac nid cynrychiolydd unrhyw blaid.

Diolchodd y Maer i'r AS Robin Millar am ddod i'r cyfarfod gan ddweud bod croeso iddo ddod i gyfarfod eto yn y dyfodol.

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

Derbyn a chymeradwyo cofnodion 9fed Mehefin 2021

Roedd y cofnodion wedi'u cylchredeg drwy e-bost yn flaenorol a'u nodi wedi'u darllen.

Materion yn codi:

45.26.1 Roedd wedi'i nodi y byddai gwaith yn cael ei wneud i ddiogelu'r gwaith atgyweirio dros dro ar y tyllau mawr yn y ffyrdd cyn gynted â phosibl. Nid yw'r gwaith wedi cael ei wneud o hyd ac mae pryderon ynghylch diogelwch. Mae'r Cynghorydd Sir wedi bod mewn cysylltiad gyda'r tîm prosiect ac mae cadarnhad pellach wedi bod y bydd y gwaith yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl.

53.2 Gwybodaeth bellach gan y Cyngor Sir nad oes planhigion ar gael eleni oherwydd y problemau gyda'r tai gwydr wedi'u difrodi. O ganlyniad bu i Glerc y Dref gytuno bod modd prynu planhigion ac mae cynghorydd cymwynasgar wedi cwblhau'r gwaith.

Cynigydd Cyng D Merrell Eilydd Cyng N Jones
chofnodi

Yn unfrydol

Penderfynwyd derbyn a

Derbyn a chymeradwyo Adroddiad Cefnogaeth Stryd a chynlluniau i'r dyfodol

Roedd yr adroddiad wedi'i gylchredeg yn flaenorol dros e-bost a nodwyd bod y ddogfen wedi'i darllen. Bu i'r Cynghorydd Sir nodi pa mor bwysig mae hi wedi bod cysylltu gyda phobl fregus yn ystod y pandemig. Mae gwybodaeth o gyfarfodydd y Sir yn awgrymu bod hyn dal yn her. Mae'n gadarnhaol bod gan y Cyngor Tref dros 180 o drigolion bregus ar y rhestr ac wedi'u cefnogi nhw ychydig o dan 800 weithiau yn ystod blwyddyn y pandemig. Llongyfarchiadau i'r tîm o staff am lwyddiant y prosiect. Cafodd cynigion wrth symud ymlaen eu trafod a'u cymeradwyo.

Gall y tîm o staff ymrwymo i ddanfôn presgripsiynau unwaith yr wythnos heb gyfaddawdu'r llwyth gwaith a hoffem ni sicrhau ein bod yn gallu parhau gyda hyn ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Dydd Mercher fuasai'r diwrnod mwyaf addas i wneud y danfoniadau.

Mae cynnig bod y swyddfa yn dychwelyd i dri diwrnod yr wythnos, ond symud hyn i Ddydd Llun, Mawrth a Mercher er mwyn caniatáu i alwadau ffôn ar gyfer presgripsiynau ddod i mewn yn barod ar gyfer dydd Mercher.

Bydd y tîm o staff yn cysylltu gyda'r holl gleientiaid ar y gronfa ddata bresennol i weld ydyn nhw'n ymwybodol o'r newidiadau ac i weld a hoffen nhw aros ar ein cronfa ddata.

Mae'r dudalen Facebook Cefnogaeth Stryd wedi bod yn eithaf llwyddiannus wrth rannu gwybodaeth gyda thrigolion <https://www.facebook.com/streetsupportllanfairfechan>

Mae cynnig ein bod yn parhau i ddefnyddio'r dudalen hon ond ei hail-frandio fel tudalen Iechyd a Lles Llanfairfechan

Cynigydd Cyng A Hinchliff Eilydd Cyng N Jones
chofnodi

Yn unfrydol

Penderfynwyd cymeradwyo a

Derbyn a chymeradwyo Calendr Digwyddiadau Cymunedol hyd at fis Hydref 2021, wedi'i gylchredeg a'i nodi wedi'i ddarllen

Cyfnewid llyfrau - oes modd rhoi bwced rhodd yno rhag ofn bod pobl eisiau rhoi rhodd?

Trywydd y Bwgan Brain a Diwrnod o Chwarae. Caniatâd i logi adloniant Funky Octopus am £650.00
Cynigydd Cyng A Hinchliff Eilydd Cyng C Jones Yn unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a
chofnodi

Diolch i Gyng Iolo Kars Jones am baratoi cam cyntaf yr holiadur ar gyfer y broses gynllunio gymunedol. Mae hwn yn fan dechrau i edrych ar sut allwn ni symud ymlaen gyda'r prosiect a chael gymaint o bobl ag sy'n bosibl i fod yn rhan ohono. Bydd ar gael ar-lein yn y dyfodol agos. Penderfynwyd derbyn a chofnodi

Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer cynllun Chwarae Allan

Roedd adroddiad a chostau wedi'u cylchredeg yn flaenorol. Y gost i'r Cyngor Tref fydd £800 ar gyfer 5 sesiwn o Chwarae Allan. Roedd prosiectau haf blaenorol wedi'u croesawu yn dda gan drigolion.

Cynigydd Cyng A Hinchliff Eilydd Cyng D Merrell
chofnodi

Yn unfrydol

Penderfynwyd cymeradwyo a

Derbyn a chymeradwyo Archwiliad Mewnol 2021/21 a chynlluniau ar gyfer yr Archwiliad Allanol

Roedd yr Archwiliad Mewnol wedi'i gymeradwyo gan JDH Ltd ac roedd adroddiad wedi'i gylchredeg yn flaenorol dros e-bost ac wedi'i nodi wedi'i ddarllen. Y Clerc i addasu'r Rheoliadau Ariannol i gynnwys adran 11.1.a.ii a pharatoi adroddiad i'r archwilwyr allanol i ofalu am y pwnc parhaus sydd wedi'i nodi yn ymwneud â gwaith ar gytundeb a bydd yn nodi bod hyn oherwydd pandemig Covid-19.

Cynigydd Cyng A Hinchliff Eilydd Cyng C Jones Yn unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a chofnodi Derbyn gwybodaeth am y wefan Gymraeg newydd

Mae'r broses o gyfieithu bellach wedi'i chwblhau. Roedd y tab newyddion presennol ei hun dros 16,000 gair felly mae hyn wedi bod yn llawer o waith. Nodwyd bod rhaid gwefannau yn ymgymryd â chyfieithu awtomatig. Fodd bynnag, nodwyd nad ydy hyn yn cael ei argymhell gan fod cywirdeb yn gallu bod yn broblem. Cytunwyd y byddwn yn parhau gyda'r broses bresennol am rŵan ac yn ailedrych ar y sefyllfa yn rheolaidd gan fod meddalwedd TG cyfieithu yn gwella o hyd. Bydd cyfieithiad y wefan gymunedol yn dilyn unwaith bydd y broses gynllunio gymunedol ar fynd; gobeithio y bydd arian ar gael i helpu gyda hyn a bydd y bartneriaeth yn gallu bod yn gyfrifol am waith gweinyddol y wefan.

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

Derbyn a chymeradwyo taliadau ar gyfer mis Mehefin 2021

Cyfraniadau cyflogwr CThEM (HMRC) £1371.66

Archwiliad mewnl Gwasanaethau Busnes JDH £428.40

Cyfieithu Cymunedol Menter Iaith £612.61

Sgipiau Cymunedol £552.00

Llun-gopiwr Siemens £302.40

Caiff dwy eitem eu talu a'u rhoi i mewn yn adolygol ar gyfer cyfarfod Gorffennaf 21ain: Planhigion Cyng Rob Jewell a chyfieithiadau Delwedd.

Cynigydd Cyng A Hinchliff Eilydd Cyng C Jones Yn unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a chofnodi

Trafod materion cynllunio:

Dim

Derbyn gohebiaeth -

Rydym wedi derbyn llythyr o ddiolch gan drigolyn ynglŷn â'r gwaith atgyweirio ar wyneb y cwrt tennis a'r polyn rhwyd. Dywedwyd bod y trigolion yn 'ddiolchgar am yr holl waith mae'r gweithwyr Sir a chymunedol yn ei wneud ar ran eraill'

Rydym wedi derbyn e-bost yn canmol y parc sglefrio ac yn gofyn am fwy o wybodaeth fel arfer dda ar gyfer Cyngor Tref arall. Nodwyd hefyd bod gwerthfawrogiad mawr tuag at waith Clerc y Dref mewn materion fel hyn.

Roedd pob e-bost arall gydag unrhyw wybodaeth wedi'i chylchredeg dros e-bost yn flaenorol i'r cyngorwyr yn dilyn rheoliadau Covid-19 Penderfynwyd eu derbyn a'u cofnodi

Derbyn adroddiadau o gyfarfodydd

Roedd cynghorydd wedi mynd i gyfarfod ymgynghori Dŵr Anafon yn Neuadd Gymunedol y Dref. Nodwyd bod Dŵr Cymru wedi ymgymryd â gwaith ymchwil helaeth ac wedi cysylltu gydag ymgynghorwyr ac arbenigwyr allanol i'w helpu i wneud y penderfyniad. Bu eglurhad yno mai'r cynlluniau presennol ydy'r rhai sy'n tarfu lleiaf ar yr ardal a'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o amddiffyn yr ardal. Bu i'r AC Janet Finch Saunders ymateb o blaid darganfyddiadau'r ymchwil gan fod tystiolaeth yn dangos bod popeth wedi'i wneud i ddod o hyd i'r ffordd fwyaf effeithiol o'i chwmpas. Daeth mwy o drigolion i'r cyfarfod wrth y llyn nac i'r cyfarfod gwybodaeth yn y neuadd oedd yn anffodus gan nad oedden nhw'n gallu gweld yn iawn y darganfyddiadau oedd wedi'u paratoi. Cytunwyd, pe bai'r ymgynghoriad wedi digwydd yn gynharach, efallai buasai wedi helpu i leddfu unrhyw bryderon gan drigolion am y prosiect hwn.

Roedd Cynghorydd wedi mynd i gyfarfod am y cyfyngiadau parcio newydd ar allt Pen y Bryn. Mae'r newidiadau hyn dal i fynd drwy'r broses gyfreithiol ac am gael eu datrys yn y dyfodol agos.

Roedd Cynghorydd a Chlerc y Dref wedi mynd i gyfarfod yn y feddygfa i drafod newidiadau i'r systemau ffôn. Caiff systemau newydd eu cynllunio gan nad ydy'r un bresennol yn cwrdd ag anghenion cleientiaid. Rhannwyd sylwadau ac mae cyfarfod arall wedi'i drefnu ond wedi'i ohirio.

Mae'r Cynghorwyr Sir wedi bod yn rhan o grŵp meddygfeydd Meddyg Teulu. Bydd newidiadau yn y meddygfeydd yng Nghonwy, Cyffordd Llandudno a Deganwy all gael effaith gynyddol ar Blas Menai gan fod llawer o drigolion Penmaenmawr wedi cofrestru yng Nghonwy. Rhaid aros i weld sut bydd pethau yn datblygu ond tydy'r feddygfa ddim i'w gweld yn poeni yn ormodol am y peth. Cytunwyd bod angen caban aros bysiau y tu allan i'r feddygfa.

Nodwyd nad ydy'r gwasanaeth retinopathi a thrin traed bellach ar gael ym meddygfa Plas Menai. Codwyd pryderon ynghylch hyn. Y Clerc i anfon e-bost at y feddygfa am eglurder ar hyn. Penderfynwyd derbyn a chofnodi.

Derbyn cwynion a chanmoliaeth brys

Wedi derbyn sylwadau cadarnhaol am y prosiect basgedi crog a'r dalwyr planhigion. Y trigolion yn sylwi ar y newidiadau cadarnhaol.

Prosiect ymchwil - cais am gyfweiliadau gyda'r Cynghorwyr Sir a chynghorwyr tref

Mae'r Cynghorwyr wedi dechrau gweithio ar raglen hyfforddiant a'r sesiwn gyntaf oedd Cadeirio Cyfarfodydd oedd yn ddefnyddiol iawn. Bydd yr holl gynghorwyr yn derbyn cofnod hyfforddiant dros y flwyddyn nesaf ac yn gallu derbyn tystysgrif am gymryd rhan mewn hyfforddiant Un Llais Cymru.

Adrodd bod parcio y tu allan i'r ysgol yn dod yn berygl mawr ac roedd trafodaeth am sut i fynd i'r afael â hyn. Awgrym efallai gall Swyddog Hyfforddi Priffyrdd o'r Cyngor Sir helpu gyda hyn. Y Clerc i anfon e-bost.

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

Bu i'r Cadeirydd gau'r cyfarfod am 8:30yh.

Cyfarfod nesaf:

Cyfarfod Llawn y Cyngor Tref Nos Fercher 21ain o Orffennaf 2021 am 7yh ar-lein